

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mawrth 3ydd 2026 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council held on Tuesday, March 3<sup>rd</sup> 2026 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* – Gareth Evans, Caerwyn Owen, Walwyn Jones, Teifi Davies, Elen Mathias, Gwyn James, Delfryn Owens

**1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwyr/*Councillors* – Melva Phillips, William Anwyl

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests**

DIM BYD PERTHNASOL/NO RELEVANCE

**3 Materion Personol/Personal Matters**

Croesawyd Walwyn yn ôl wedi cyfnod o absenoldeb

*A warm welcome back was extended to Walwyn*

**4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 3/2/26**

Cynigiwyd gan Gwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Teifi

*Deemed to be correct by Gwyn and seconded by Teifi*

**5 Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Meinciau yn Nhresaith/*Benches at Tresaith*

Gyda'r holl geisiadau am feinciau newydd neu goffa ger y traeth yn Nhresaith mynegodd y Clerc yr angen am ragor o fanylion a threfn am y meinciau presennol ger y traeth a'r llwybr. Y pwyntiau pennaf a godwyd oedd beth yw cyflwr y meinciau hyn a pha rai sydd angen eu hadnewyddu? Ar hyn o bryd mae gennym ddau gais am feinciau coffa oddi wrth Joel Williams a Mathew Terry.

*Following recent requests for replacement and memorial benches at Tresaith the Clerk expressed a need for a more organised and detailed approach towards the subject. The main issues raised were the condition of the present provision and which ones needed to be replaced? At present we have two requests for memorial beaches from Joel Williams and Mathew Terry.*

ii) Gwasanaethau CLIC/*CLIC services*

Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Adran hon ynghylch y cwteri gerllaw Pantygenau a'r arosfa fysiau yn Nhanygroes

*The Clerk informed the members that he had contacted CLIC regarding the need to clean guttering nearby Pantygenau and one of the bus stops at Tanygroes.*

**6 Cyllid/Finance**

i) Balans/*Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance* £20465.11

Taliadau/*Payments*

Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las £ 1000.00  
*National Eisteddfod*

Yswiriant/*Insurance* £ 827.92

Costau Bancio/*Banking Charges* £ 4.75

Balans Newydd/*New Balance* £18632.44

ii) Taliadau i'w Cymeradwyo

Cyflog Clerc/*Clerk Salary* £780.00

Costau Clerc/*Clerk's Costs* £149.35

Fe'u cymeradwyd yn unfrydol gan yr aelodau

*Unanimously approved by members*

**7 Cynllunio/Planning**

- i) A250384 Nant y Deri, Glynarthen  
DIM SYLWADAU PELLACH/NO FURTHER COMMENTS

**8 Gohebiaeth/Correspondence**

- i) Y Cardi Bach

Derbyniodd y Clerc ohebiaeth oddi wrth y Cyngor Sir ynghylch cais yr aelodau am ragor o wybodaeth am wasanaeth bws Y Cardi Bach. Nodwyd yn yr ohebiaeth bod trafodaethau pellach i'w cynnal am y rhwydwaith ac y bydd dyfodol y gwasanaeth hwn yn rhan o'r sgysiau hynny.

*The Clerk received correspondence from Ceredigion Council regarding the members' request for further information about this specific bus service. It was noted that further talks will be held about the future bus network and that the Cardi Bach will be a part of that discussion.*

**9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- i) Cloeon ac Allweddi Hysbysfyrddau/*Noticeboard Locks and Keys*

Yn dilyn ymholiadau pellach gan Delfryn nodwyd bod yr holl gloeon yr un peth ar gyfer y 6 hysbysfwrdd yn y gymuned, a bod gan y Cyngor Sir fynediad trwy allwedd i'w defnyddio unrhyw adeg. Argymhelliad Delfryn oedd y dylid cael cloeon newydd ar gyfer y cyfan. Fodd bynnag, cyn eu prynu penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir rhag ofn bod ganddynt gloeon wrth gefn yn barod.

*Following further enquiries by Delfryn it was noted that all noticeboards within the community had the same locks, and that the County Council had access to all these via a key. Delfryn recommended that all noticeboards ought to receive new locks. However, before purchasing these locks it was agreed to contact Ceredigion Council in case they have locks in reserve already.*

ii) *Amserlen Bysiau yn Sarnau/Bus Timetable at Sarnau*

*Nododd Delfryn, wrth ddefnyddio'r gwasanaeth bws T5 yn ddiweddar, nad oedd yr amserlen i gadarnhau'r amseroedd wedi'i diweddarau. Golyga hyn fod pobl nad sy'n gyfarwydd â'r gwasanaeth yn debygol o gael eu camarwain gan yr wybodaeth anghywir. Cytunodd y Clerc i gysylltu â CLIC er mwyn hysbysu'r Cyngor Sir.*

*While using the T5 service recently Delfryn noticed that the timetable with the current times hadn't been updated. This can lead to some members of the public being misled by outdated information. The Clerk agreed to contact CLIC in order to inform Ceredigion Council.*

**10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

*Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 7ed 2026 am 7.30 y.h.*

*The next meeting will be held on Tuesday, April 7<sup>th</sup> 2026 at 7.30 p.m.*